**EITEM AR YR AGENDA: 16**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mawrth 2008**

**Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol: Gorolwg o Leihau Risg Mewn Ysgolion**

**Adroddiad gan Chris Enness, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I hysbysu aelodau o'r gwaith wnaed dan Dîm Lleihau Llosgi Bwriadol Gogledd Cymru yn cynorthwyo ysgolion i sicrhau arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gwneud yr ysgolion yn llefydd diogelach.

### Cefndir

**2.** Ym mis Hydref 2007, daeth arian ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i leihau'r risgiau mewn ysgolion. Mae lleihau risgiau yn unrhyw beth sy'n gwneud yr ysgol yn llai tebygol o ddioddef troseddu e.e. ffensio, teledu cylch cyfyng (CCTV). Ariannwyd hyn gan y tanwariant yn y rhaglen osod taenellwyr mewn ysgolion ar gyfer 2007/08, oedd yn gyfanswm o £420,000 ar draws Cymru.

£140,000 oedd y gyllideb a ddyrannwyd i Ogledd Cymru. Roedd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn cynnig fod hwn yn cael ei rannu ar draws y 6 sir, yn ôl y lefel o ddigwyddiadau ar draws ysgolion o fewn y siroedd hynny. Y swm mwyaf allai ysgol unigol wneud cais amdano oedd £15,000.

## Y Broses

**3.** Yn unol â Strategaeth Atal Tanau Bwriadol Cymru, blaenoriaethwyd yr ysgolion oedd mewn mwyaf o risg. Defnyddiodd y tîm ddata hanesyddol o System Rheoli Cofnodion yr Heddlu i raddio'r ysgolion yn nhrefn blaenoriaeth. Casglwyd data o'r 1af Medi 2006 hyd 30ain Medi 2007 oedd yn manylu difrod troseddol, byrgleriaeth, tân ac ymddygiad gwrth gymdeithasol.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i faterion oedd yn codi a digwyddiadau nad oeddynt yn cael eu hadrodd gan ysgolion er mwyn cynnwys problemau diweddar.

## Ceisiadau wedi eu cwblhau

**4.** Cynorthwyodd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yr ysgolion i gasglu'r ffurflenni cais a'u cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd tîm Gogledd Cymru wedi dyfeisio templed i safoni'r holl geisiadau a hwyluso'r broses. Cydnabuwyd y broses gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel arfer da a'i rannu gyda'r Timau Lleihau Llosgi Bwriadol eraill.

## Y Canlyniad

**5.** Mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol wedi bod yn llwyddiannus wrth hwyluso dros £220k (dwywaith y targed a osodwyd) o arian ar gyfer lleihau risg mewn ysgolion i ysgolion ar draws Gogledd Cymru ers mis Hydref 2007. O ganlyniad mae dwy ysgol ar bymtheg wedi elwa o'r arian hwn.

## Gwerthusiad

**6.** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r dasg o werthuso'r prosiectau terfynol i'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2008.

## Argymhelliad

**7.** Fod Aelodau'n nodi'r adroddiad.

## Atodiad 1

| Sir | Ysgol | Manylion y Cynllun |
|---|---|---|
| Conwy | Ysgol Iau Bod Alaw | Ffensio |
| Conwy | Emrys Ap Iwan | Ffensio |
| Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd John Summers | Ffensio |
| Sir y Fflint | Queensferry | Ffensio |
| Sir y Fflint | Gwynedd | CCTV |
| Sir y Fflint | Ysgol y Santes Fair | Ffensio |
| Sir y Fflint | Ysgol Uwchradd y Fflint | Ffensio |
| Sir y Fflint | Ysgol Gynradd Croes Atti | Ffensio |
| Sir y Fflint | Ysgol Gynradd Cornist | Ffensio |
| Sir Ddinbych | Ysgol Uwchradd y Rhyl | CCTV |
| Sir Ddinbych | Ysgol Penmorfa | CCTV |
| Gwynedd | Dyffryn Nantlle | Ffensio |
| Wrecsam | Hafod Y Wern | CCTV |
| Wrecsam | Ysgol Gwersyllt | CCTV |
| Wrecsam | Ysgol Uwchradd y Grango | Ffensio |
| Wrecsam | Ysgol Uwchradd Rhiwabon | CCTV |
| Wrecsam | Ysgol Uwchradd Rhiwabon | CCTV |
| Wrecsam | Ysgol Uwchradd Darland | Ffensio |

**Lleihau Risg Mewn Ysgolion 2007/08**

| Sir | Y Grant Lleihau Risg Mewn Ysgolion a Ddyfarnwyd | Y Grant Lleihau Llosgi Bwriadol Bach a Ddyfarnwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Conwy | £21,091.00 | £0.00 | £21k |
| Sir Ddinbych | £31,590.85 | £0.00 | £32k |
| Sir y Fflint | £27,950.00 | £36,790.25 | £65k |
| Wrecsam | £77,903.71 | £10,000.00 | £88k |
| Gwynedd | | | |
| Môn | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| **Cyfanswm** | **>£175K** | **£47K** | **>£220K** |